

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Emerald Tattoo Company

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Tachwedd  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 04 Ionawr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)

Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Emerald Tattoo Company fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Nhonysguboriau ac mae'n darparu gwasanaeth tynnu tatŵ laser i oedolion dros 18 oed.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o

nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni safonau Rheoliadau Iechyd a Gofal (Cymru) 2011. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 29 Tachwedd 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut ydych chi'n sicrhau bod y cyfundrefnau atal a rheoli heintiau a'r cyfundrefnau glanhau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut mae urddas cleifion yn cael ei gynnal? Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r canlynol o ganlyniad i COVID-19, os o gwbl?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel ac effeithiol, gan gynnwys sut mae offer laser yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol?

---

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Aseiad risg amgylcheddol
- Polisi diogelwch tân
- Aseiad risg tân
- Tystysgrif gwasanaethu diffoddwr tân
- Tystysgrif atebolrwydd yswiriant

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o gamau yr oedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig i helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd y rhain yn cynnwys gorsafoedd diheintio'r dwylo trwy'r stiwdio gyfan; marcwyr ar y llawr, posteri a seddi â digon o le rhyngddynt yn yr ardal aros i gadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, mae gan y gwasanaeth uned hidlo aer ac roedd wedi trefnu bod pawb yn cyrraedd y gwaith ar amser gwahanol. Mae sgrin wedi'i gosod yn y dderbynfa i amddiffyn staff. Dywedwyd wrthym fod staff yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol priodol, a gofynnir i gleifion wisgo masg, oni bai eu bod wedi'u heithrio.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi derbyn a gweithredu arweiniad a chynghor gan gyhoeddiadau'r llywodraeth yn ogystal â chan eu Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau. Mae'r cynghor wedi eu galluogi i weithredu'r newidiadau a restrir uchod sy'n helpu i ddarparu amgylchedd mwy diogel i'w staff a'u cleifion.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod aseiad risg amgylcheddol wedi'i gwblhau ym mis Gorffennaf 2021. Nid yw'r aseiad yn tynnu sylw at unrhyw gamau sydd heb eu datrys i'r lleoliad eu cwblhau. Gwasanaethwyd y diffoddwyr tân yn ystod y 12 mis diwethaf a chwblhawyd aseiad risg tân ym mis Mawrth 2021.

Gwnaethom gadarnhau bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ddilys ar waith. Rhoddodd y rheolwr gyfres o ddogfennau inni yn amlinellu eu dull o asesu risg yn y gweithle, gwiriadau arferol o'r amgylchedd, offer ac eitemau a ddefnyddir yn y clinig ac ar gyfer diogelwch tân.

---

Mae urddas a chyfrinachedd yn cael eu cadw gan mai dim ond un cleient sy'n bresennol yn yr ystafell laser ar unrhyw un adeg. Dywedwyd wrthym fod staff yn gadael yr ystafell i ganiatáu i gleient newid a darperir tyweli urddas tafladwy lle bo hynny'n berthnasol. Trafodir taith y cleifion gyda nhw cyn i unrhyw driniaeth gychwyn.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym nad yw'r clinig yn cynnig gwybodaeth a gwasanaethau dwyieithog i'w cleifion fel mater o drefn ac na ofynnwyd am hyn hyd yma. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod hi'n gallu sgwrsio yn Gymraeg pe gofynnir am hyn.

Felly, rydym yn argymhell iddynt adolygu Safon 18 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cyfathrebu'n effeithiol) sy'n nodi bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat sy'n ystyried anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, mae Rheoliad 9(1)(g) o Reoliadau Iechyd a Gofal (Cymru) 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gael polisi ar waith sy'n amlinellu sut maent yn darparu gwybodaeth i gleifion. Dylai'r polisi hwn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn Gymraeg pe bai claf yn gofyn am hynny.

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi rheoli atal heintiau
- Amserlenni glanhau
- Rhestr glanhau ar ôl triniaeth
- Aseiad risg stiwdio

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o gamau yr oedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig i helpu i hyrwyddo arferion da mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol gan staff a chleifion bob amser, amserlen lanhau ar gyfer tasgau dyddiol ac ar ôl pob cleient, gan gynnwys dolenni drysau, y fainc driniaeth, sbectolau amddiffyn llygaid, a gorsafoedd diheintio dwylo a sinciau

---

ymolchi dwylo ar gyfer staff a chleifion.

Dywedwyd wrthym y gofynnir i gleifion gwblhau offeryn sgrinio COVID-19 yn electronig cyn eu hapwyntiad a'u bod yn sicrhau nad oes ganddynt unrhyw symptomau pan fyddant yn cyrraedd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Ychwanegodd y rheolwr cofrestredig y gofynnir i gleifion wisgo cyfarpar diogelu personol priodol i'w hapwyntiad a bod cyfleusterau hylendid dwylo priodol yn cael eu darparu.

Nododd asesiad risg y stiwdio dyddiedig Gorffennaf 2021 restr o beryglon amgylcheddol ac roedd hefyd yn cynnwys sut roedd COVID-19 yn cael ei reoli. Roedd yr asesiad risg yn dogfennu'r camau a gymerwyd i reoli'r risg, yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol a'r amserlenni. Roedd polisi ac amserlenni glanhau atal a rheoli heintiau wedi'u diweddarau yn sgil COVID-19.

Fe'n hysbyswyd gan y rheolwr cofrestredig bod yr holl gopiâu papur o'r canllaw i gleifion wedi'u tynnu o'r clinig (bellach ar gael trwy eu gwefan neu wedi'u hargraffu'n benodol ar gyfer claf) er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi a bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddefnyddio gan staff a chleifion.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Tystysgrifau hyfforddi diogelu
- Polisi diogelu
- Tystysgrifau craidd gwybodaeth
- Canllawiau i gleifion
- Ffurflenni ymgynghori ar-lein, gan gynnwys hanes meddygol a holiadur COVID-19
- Protocolau meddygol a thriniaeth
- Rheolau lleol
- Asesiad risg gan Gynghorydd Amddiffyn rhag Laserau.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

---

---

Cawsom dystiolaeth i gadarnhau bod y gweithredwyr laser wedi mynychu'r cwrs Craidd Gwybodaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Darparwyd tystysgrifau hefyd i gadarnhau bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r laser yn llwyddiannus.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio ag amod eu cofrestriad i drin cleifion dros 18 oed yn unig. Manylwyd ar y gweithdrefnau y bydd y gwasanaeth yn eu dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu yn eu polisi diogelu. Gwelsom ardystiad bod y gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel 4.

Dywedwyd wrthym am y gwiriadau a fyddai'n cael eu cwblhau pe bai staff newydd yn cychwyn yn y stiwdio i sicrhau eu bod yn addas. Cawsom gadarnhad bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y gweithredwyr laser.

Cawsom y copi diweddaraf o ddatganiad pwrpas y 'gwasanaethau' a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu ei bolisi diogelu i gynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol. Yn ogystal â hyn, dylid ystyried y cyngor, y canllawiau a'r ddeddfwriaeth y cyfeirir atynt yn y gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan.

## **Gofal diogel ac effeithiol**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi darparu triniaeth yn ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i egluro triniaethau i gleifion, sut mae anghenion triniaeth yn cael eu hasesu a sut mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r offer laser.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob claf yn cwblhau ymgynghoriad ar-lein, yn ogystal â chael trafodaeth wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth i gleifion a chaniatáu amser i ddarparu gleifion ystyried eu hopsiynau triniaeth.

Cesglir hanesion meddygol fel rhan o'r ymgynghoriad i sicrhau addasrwydd y driniaeth a ddewiswyd. Mae'r rhain yn cael eu gwirio gan y claf am unrhyw newidiadau cyn unrhyw driniaeth ychwanegol, ac yna'n cael eu llofnodi. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai protocolau triniaeth a chynghor meddygol addas yn cael eu ceisio pe bai unrhyw amheuaeth ynghylch addasrwydd y driniaeth a ddewiswyd.

---

Canfuom fod caniatâd yn cael ei sicrhau gan gleifion cyn i'r driniaeth ddigwydd ac mewn unrhyw apwyntiadau dilynol. Roedd y broses hon yn cynnwys trafodaeth ynghylch risgiau, buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a ddymunir.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod prawf patsh croen yn cael ei gwblhau ar gyfer pob claf cyn y driniaeth, a bod gwybodaeth ôl-ofal addas yn cael ei darparu i gleifion yn dilyn y driniaeth.

Gwnaethom ystyried sut roedd yr offer laser a'r ddogfennaeth gysylltiedig wedi'u cynnal trwy gydol y pandemig i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Canfuom y canlynol:

- Roedd protocolau triniaeth ar waith ac fe'u hysgrifennwyd gan weithiwr proffesiynol cofrestredig y Cyngor Meddygol Cyffredinol.
- Roedd rheolau lleol ar waith ac wedi'u hysgrifennu gan Gyngorydd Amddiffyn rhag Laserau. Roedd y rheolau lleol yn cynnwys y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio laserau yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau.
- Roedd yr offer laser wedi cael eu gwasanaethu a'u hail-galibro yn ddiweddar.
- Roedd hyfforddiant Craidd Gwybodaeth<sup>1</sup> wedi'i gwblhau.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod Emerald Tattoo Company wedi cau ac ailagor yn ystod y pandemig yn 2021. O ganlyniad i hyn, ni chafwyd unrhyw ymweliad gan Gyngorydd Amddiffyn rhag Laserau yn 2020. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gadarnhad bod ymweliad gan Gyngorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi'i drefnu ar gyfer Ionawr 2022. Trwy gydol yr amser hwn, mae'r Cyngorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi darparu canllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain i'r rheolwr cofrestredig, a dywedwyd wrthym eu bod wedi'u dilyn. Yn unol ag amodau'r cofrestriad, mae'n ofynnol i adolygu'r rheolau lleol yn flynyddol. Felly rydym yn argymhell bod y rhain yn cael eu hadolygu cyn gynted â phosibl.

Roedd y protocolau meddygol (llosgiadau, cyffuriau sy'n gysylltiedig â ffotosensitifrwydd a phrotocolau tynnu tatws) a gyflwynwyd wedi'u dyddio 2016, neu heb eu dyddio o gwbl. Fodd bynnag, mae'r dystysgrif sy'n cadarnhau cymorth y stiwdio wedi'i dyddio ym mis Tachwedd 2021. Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r wybodaeth ac yn sicrhau bod dyddiadau cyhoeddi ac adolygu yn cael eu cynnwys ar bob protocol.

---

<sup>1</sup>Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn darparu sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser a golau pwls dwys yn ddiogel ac yn effeithiol



# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Emerald Tattoo Company

Dyddiad y gweithgarwch:  
29 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y clinig yn mabwysiadu polisi sy'n amlinellu sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn Gymraeg pe bai claf yn gofyn am hynny.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 18 - Cyfathrebu'n effeithiol  Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 9 (1) (g)	Wedi creu polisi Cyfathrebu'n Effeithiol sy'n tynnu sylw at y dull o gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn y Gymraeg ynghyd ag unrhyw iaith arall sy'n ofynnol lle nad Saesneg yw iaith gyntaf y cleient.	Megan Stacey	Cwblhawyd 16/12/2021

2	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei bolisi diogelu a chynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. Yn ogystal â hyn, dylai'r polisi adlewyrchu unrhyw gyngor, canllaw a deddfwriaeth y cyfeirir atynt yn y gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 11 Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed  Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 16 (3) (a)	Wedi adolygu'r polisi diogelu a'i ddiwygio i ychwanegu'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol.	Megan Stacey	Cwblhawyd 16/12/2021
3	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu'n flynyddol, yn unol â'u hamodau cofrestru.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 1 - Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd  Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 15(10)	Wedi bod yn cyfathrebu â Mike Regan, ein Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau, ac rydym yn disgwyl cael holiadur rhwng canol a diwedd mis Ionawr ac asesiad risg newydd a rheolau lleol newydd erbyn dechrau mis Chwefror 2022	Megan Stacey	Yn gynnar ym mis Chwefror 2022
4	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dyddiadau cyhoeddi ac adolygu'r protocolau meddygol yn cael eu cofnodi. Hefyd mae angen adolygu'r protocolau dyddiedig 2016 neu'r protocolau heb ddyddiad i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol i'r gwasanaeth.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 20 - Rheoli cofnodion  Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 45 (1)	Mae'r holl ddogfennaeth wedi'i hadolygu a'i dyddio'n gywir gan Dr Paul Myers	Megan Stacey	Cwblhawyd 16/12/2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Megan Stacey - Rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 16/12/2021